**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 31 Hydref, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, J.M. Norman a M.R. Wilkinson

Hefyd yn bresennol: : Mr a Mrs Holland (Ymgeiswyr – Willmore's 1938), Mr R Thomas (Person Arall), Ms G Donavan-Jones (Person Arall), Mr a Mrs Phelps (Personau Eraill), Swyddogion Trwyddedu (Cyngor Bro Morgannwg), Swyddog Cyfreithiol (Cyngor Bro Morgannwg) a Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd, Craffu a Phwyllgorau (Cyngor Bro Morgannwg).

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd P. Drake yn cael ei benodi'n Gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. CANIATÁU TRWYDDED SAFLE – WILLMORE'S 1938, THE FORMER GOLF KIOSK, CLIFF PARADE, PENARTH, CF64 5BP –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i amodau wedi'u haddasu sy'n gyson â'r atodlen weithredu mewn modd sy'n cael ei ystyried yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Rhesymau dros y penderfyniad

Mae'r amodau hynny i gynnwys y canlynol:

Yr amodau fel yr amlinellwyd yn y sylwadau gan Heddlu De Cymru ar 30 Medi 2022.

Roedd yr Is-Bwyllgor yn ymwybodol mai dim ond os oedden nhw'n gymesur ac yn angenrheidiol y dylid rhoi amodau ar drwydded. O ran yr amodau a gynigiwyd gan Mr Thomas, ni chlywodd yr Is-bwyllgor unrhyw dystiolaeth o sŵn yn gysylltiedig â'r amod i waredu gwastraff, gan gynnwys poteli, ar adegau oedd wedi achosi niwsans. Mewn gwirionedd, clywodd yr Is-Bwyllgor dystiolaeth o drosglwyddo gwastraff am 11.00am yn unig, yn unol â'r gofynion. Unwaith eto, nid oedd tystiolaeth ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer sut y byddai alcohol yn cael ei yfed ar y safle yn awgrymu bod

angen unrhyw amodau ychwanegol; er enghraifft, byddai alcohol yn cael ei yfed wrth fwrdd beth bynnag. Roedd yr Is-bwyllgor yn ymwybodol o effaith amgylcheddol plastig amldro ar gyfer gwydrai yfed a byddai'n annog yr Ymgeiswyr i archwilio'r defnydd o ddeunydd cyfansawdd a/neu blastig y gellir ei ailddefnyddio fel rhan o'u rheolaeth o'r safle, pan fo angen.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yna faterion yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn a oedd wedi'u cyflwyno gan y Personau Eraill, er yr oedd yn ymddangos bod y rhain yn barhaus ac nid yn gysylltiedig â'r gweithgaredd trwyddedadwy a gynigir. Ymhellach, nodwyd nad oedd Heddlu De Cymru, yr awdurdod cyfrifol am drosedd ac anrhefn, wedi gwrthwynebu'r drwydded a bod eu hamodau arfaethedig wedi cael eu cytuno. Derbyniwyd y byddai amodau'r drwydded ychwanegol sy'n ymwneud â gweithredu teledu cylch cyfyng yn debygol o weithredu fel rhwystr ar y safle ar gyfer trosedd ac anhrefn a bod yr Ymgeiswyr wedi ymgysylltu â'r Heddlu fel a phan ofynnwyd iddo ac fel rhan o'r broses trwyddedu.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y safle trwyddedig cyfagos yn gweithredu gyda thrwydded debyg a doedd dim materion wedi codi yn sgil y drwydded honno. Nid oedd unrhyw broblemau sbwriel gyda'r safle na sŵn o wagio poteli ac ati. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â defnyddio llestri gwydr ar y safle.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais wedi'i wneud er mwyn gwerthu alcohol ochr yn ochr â busnes presennol a oedd yn gweithredu yn bennaf fel sefydliad bwyd ac na fyddai'r safle'n gweithredu fel bar nac yn gwerthu alcohol i’w yfed oddi ar y safle yn yr ystyr draddodiadol.

Wrth ddod i'w benderfyniad roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb oedd wedi gwneud sylwadau ysgrifenedig a llafar ac wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion Trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad Polisi Trwyddedu y Cyngor.

Mae gan yr Ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Rhaid i'r Apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig ac o fewn 21 diwrnod i Lys Ynadon Caerdydd a Bro Morgannwg. Os bydd yr Ymgeisydd yn ansicr ynghylch ei hawliau cyfreithiol a'i gyfrifoldebau, dylai geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.